Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynaliadwyedd:** Adroddiad Blynyddol 2023-24

Mehefin 2024




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynaliadwyedd:** Adroddiad Blynyddol 2023-24

Mehefin 2024

senedd.cymru



# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... 7

**Crynodeb o Berfformiad** .......... 8

**Carbon** .......... 10

**Ynni** .......... 17

**Dŵr, Gwastraff ac Adnoddau Eraill** .......... 18

**Teithio** .......... 20

**Bioamrywiaeth** .......... 22

**Effeithiau Eraill** .......... 24

**Rhanddeiliaid Eraill** .......... 25

**Rheoli Amgylcheddol** .......... 26

**Atodiad A - Tablau Data** .......... 27



# Cyflwyniad

## Ymhell y tu hwnt i'r pandemig, rydym yn falch o allu adrodd ar set sefydlog o fetrigau cynaliadwyedd, tebyg i rai y llynedd, ond sy'n dangos gwelliant parhaus.

Mae sefydlogi patrymau gwaith ac effaith hyn ar ein defnydd o gyfleustodau a theithio wedi ein galluogi i wneud mesurau gwella wedi eu targedu gyda mwy o sicrwydd.  Rydym wedi parhau â'n hymdrechion i sicrhau bod yr ynni mae ein hadeiladau'n ei ddefnyddio yn adlewyrchu deiliadaeth yn well, ac rydym yn falch o'r arbedion ariannol a charbon mae'r mesurau hyn yn eu cynhyrchu.

Yn adroddiad y llynedd fe wnaethom gynnwys allyriadau Cwmpas 3 am y tro cyntaf ac rydym yn parhau i adrodd ar y rhain yma.  Mae'r ôl troed ehangach hwn hefyd yn sefydlog ac mae ein gwaith gyda chyflenwyr i wella ei gywirdeb wedi dechrau.  Dros amser, bydd hyn yn ein galluogi i dargedu ein hymdrechion yn well a chynnwys effeithiau carbon mewn amrywiaeth ehangach o brosesau penderfynu.

Mewn blwyddyn o gyllidebau tynnach, rydym wedi parhau i wneud cynnydd gyda'n Strategaeth Garbon a'n huchelgeisiau ar gyfer 2030.  Mae'r gwaith ar y rhwydwaith gwres ardal yn parhau ac mae'r rhan fwyaf o'n hystâd yn defnyddio goleuadau LED.  Mae mesurau fel hyn nid yn unig yn gwella cydnerthedd ein hystâd, ond hefyd yn ein paratoi ni ar gyfer dyfodol carbon isel.



**Janet Finch-Saunders AS**
Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

# Crynodeb o Berfformiad

Yn adroddiad y llynedd buom yn sôn am y cynnydd yn y defnydd o'r ystâd yn dilyn y pandemig, a setlo i mewn i *Ffyrdd o weithio* newydd. Mae'r rhain bellach wedi gwreiddio, yn yr un modd â'r mesurau arbed ynni rydym wedi bod yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod patrymau gwaith newydd yn cael eu mabwysiadu mor effeithlon â phosibl.

Gwelwn yn y tablau data ar ddiwedd yr adroddiad hwn fod metrigau cynaliadwyedd wedi bod yn gymharol sefydlog dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn awr; gan adlewyrchu'r patrwm gweithio hybrid sefydlog newydd a'r defnydd o'r ystâd. Rydym wedi bod yn manteisio ar y cysondeb hwn i sicrhau bod defnydd o gyfleustodau yn parhau i adlewyrchu lefelau meddiannaeth yn well ar draws yr wythnos waith.

Gydag adnoddau ychydig yn fwy cyfyngedig eleni, bydd rhywfaint o'r gwaith cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer cyfnod canol tymor ein Strategaeth Carbon Niwtral yn awr yn aros am argaeledd arian o'r fath. Yn hytrach, rydym wedi canolbwyntio ar newid ymddygiad ac arbedion effeithlonrwydd wrth i ni barhau i leihau defnydd.

Rydym yn parhau i gynllunio ymlaen llaw, er hynny, gan gynnwys cefnogi gwaith gyda'r rhwydwaith gwres ardal sy'n cael ei adeiladu o gwmpas Caerdydd, a fydd yn y pen draw yn cyflenwi ein dau adeilad mwyaf â gwres carbon isel. Rydym hefyd wedi bod yn gwneud teithio carbon isel mor hawdd â phosibl i'n Haelodau a'n staff.



Mae cyhoeddi data sy'n cyd-fynd â chanllawiau adrodd ar garbon Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf y llynedd wedi golygu ehangu ein hôl troed carbon ac wedi rhoi maes ffocws newydd i ni weithio arno gyda chyflenwyr. Byddwn yn parhau i adrodd ar ein hôl troed carbon craidd yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau cysondeb, ynghyd ag amrywiaeth o fetrigau cynaliadwyedd eraill yn y tablau data ar y diwedd.

Mae ein gwaith yn parhau o dan faner system reoli wedi ei hardystio'n amgylcheddol sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff a achredir gan UKAS yn unol â gofynion ISO14001. Roeddem yn falch eleni o basio ein hymweliad adnewyddu tystysgrifau gan ein corff archwilio, gan ein galluogi i barhau i arddangos y logo 14001.

LRQA CERTIFIED ISO 14001 | UKAS MANAGEMENT SYSTEMS 0001

Healthy Travel Wales




# Carbon


## Mae ein hôl troed carbon wedi bod yn weddol gyson dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan adlewyrchu'r cysondeb mewn patrymau gwaith, ond mae wedi lleihau ychydig mewn ymateb i'n hymdrechion i leihau'r defnydd o ynni.

Mae allyriadau Cwmpas 1 yn dangos gostyngiad amlwg mewn ymateb i'r mesurau arbed nwy, tra bod allyriadau Cwmpas 2 yn dangos cynnydd bach, er gwaethaf gostyngiad yn y defnydd o drydan, oherwydd y cynnydd yn ffactor trosi carbon Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer trydan. (D.S. mae'r holl drydan a brynir gennym yn dod o dariff adnewyddadwy 100%, ond rydym yn parhau i ddefnyddio’r ffactor trosi grid y Deyrnas Unedig hwn ar gyfer adrodd.) Mae allyriadau Cwmpas 3 wedi gostwng ychydig ers y llynedd, ond gydag oedi yn yr adrodd am hawliadau rydym yn disgwyl y gallant godi ychydig wrth i fwy o ddata teithio gael ei gwblhau cyn yr adroddiad nesaf.

Roedd ein gwaith y llynedd i gyfrifo ein hallyriadau Cwmpas 3 ehangach - effaith nwyddau a gwasanaethau a brynwyd - yn golygu ein bod wedi gallu adrodd ffigyrau wedi eu halinio gan Lywodraeth Cymru am y tro cyntaf yn ein prif Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd. Gyda data meddiannaeth helaeth - etifeddiaeth o'r pandemig yn rhannol - rydym wedi gallu cyfrifo ffigur carbon *gweithio gartref* fel rhan o hyn. Mae ein harolwg teithio dwyflynyddol yn ein galluogi i gynhyrchu ôl troed ar gyfer *cymudo gan weithwyr*, cydran arall, ac mae ffactorau trosi ar gyfer gwariant ar *nwyddau a gwasanaethau* yn caniatáu i ffigurau carbon pellach gael eu cynhyrchu. Nid yw hyn yn rhywbeth sy'n cael ei gyfrifo'n eang i’r lefel hon o fanylder eto, ond mae'n ein paratoi ni'n dda ar gyfer dod yn sefydliad sero net. Mae gweld y data hwn yn rhoi'r man cychwyn i ni ar gyfer mynd i'r afael â'r allyriadau hyn, gyda disgwyl i'n hymdrechion ganolbwyntio ar weithio gyda chyflenwyr fel cam nesaf i wneud yr ôl troed yn fwy cywir cyn ceisio ei leihau.



Ein hen Ôl Troed Carbon - Cwmpas 1 (nwy yn bennaf), Cwmpas 2 (trydan), Cwmpas 3 - dim ond yr elfen teithio busnes.






Ein Hôl Troed Carbon newydd - Cwmpas 1 (nwy yn bennaf), Cwmpas 2 (trydan), Cwmpas 3 - teithio busnes, nwyddau a gwasanaethau a brynwyd.

*Mae ein hôl troed carbon craidd, y seiliwyd ein Strategaeth arno, yn rhywbeth y byddwn yn parhau i adrodd arno ochr yn ochr â'n data Cwmpas 3 newydd.*

Mae ein hôl troed carbon craidd wedi lleihau eleni (Cwmpas 1, Cwmpas 2 ac agweddau dŵr, gwastraff a theithio busnes Cwmpas 3). Digwyddodd hyn yn bennaf o ganlyniad i'n gostyngiadau mewn defnydd trydan a nwy, ac mae ar y trywydd iawn i gwrdd â lefel 2030 sydd wedi ei thargedu yn ein Strategaeth.

D.S. mae'r holl drydan a brynir gennym yn dod o dariff adnewyddadwy 100%, ond rydym yn parhau i ddefnyddio'r ffactor trosi grid y Deyrnas Unedig hwn ar gyfer adrodd.


## Cwmpas 3

Mae ein hallyriadau Cwmpas 3 ehangach yn debyg i'r llynedd, y flwyddyn gyntaf y cawsant eu cyfrifo a'u cyhoeddi'n llawn. Rydym yn falch o'n gwaith yn gwneud hyn; gan adlewyrchu ein hymrwymiad i fod yn sefydliad enghreifftiol o ran mynd i'r afael â charbon a sicrhau'r safonau uchaf o dryloywder.

Mae'r graff Cwmpas 3 isod yn manylu ar gynnydd bach mewn allyriadau caffael - o ganlyniad i gategoreiddio gwariant yn well na'r llynedd. Fodd bynnag, mae gostyngiad bach wedi bod mewn gweithio gartref, sy'n adlewyrchu cynnydd bach iawn yn neiliadaeth yr ystâd. Mae gostyngiad wedi bod mewn teithio busnes, ond ar ôl i hawliadau terfynol gael eu prosesu rydym yn disgwyl ffigur tebyg i'r llynedd.


Rydym yn awr yn gweithio gyda rhai o'n prif gyflenwyr o'r sleisen gaffael i gyfrifo eu hallyriadau'n fwy cywir, cyn ceisio eu lleihau.

***Carbon Cwmpas 3, 2022-23 (t$CO_2$e)***




*Ein hallyriadau cwmpas 3 ar gyfer 2022-23*

***Carbon Cwmpas 3 (tCo2e), 2023-24***





*Ein hallyriadau cwmpas 3 ar gyfer 2023-24*

## Strategaeth Lleihau Carbon – Cynnydd

Rydym wedi parhau â'n cynnydd gyda'r mesurau a amlinellir yn y ddogfen strategaeth 'Hwyl Fawr i Garbon'.  Er bod adnoddau wedi bod ychydig yn fwy cyfyngedig, rydym wedi llwyddo i newid rhai o'r goleuadau sy'n weddill i rai LED. Mae ein tîm Cyfleusterau wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd a'i gontractwr i baratoi ein hystâd ar gyfer cysylltiad â'r cynllun gwresogi ardal. Yn ogystal, lansiwyd cynllun aberthu cyflog cerbydau trydan - gan helpu aelodau a staff i newid i drafnidiaeth carbon isel lle mae angen car.

Dros y flwyddyn ariannol nesaf, 2024-25, rydym yn bwriadu parhau â gwelliannau y manylir arnynt yn y map ffordd ond hefyd i wneud amnewidiadau cylch bywyd a fydd yn sicrhau buddion cynaliadwyedd.  Mae technoleg fwy newydd yn ein galluogi i ddewis offer mwy ynni-effeithlon, a fydd yn helpu ymhellach ar ein taith i fod yn garbon niwtral net.




## TARGED TYMOR BYR: (2021-2023)

| | | |
|---|---|---|
| Newid ymddygiad a chynnal a chadw da | 100 | **2023**: 100% wedi'i gwblhau ✓ |
| Gwelliannau BMS (tri adeilad) | 59 | **2023**: 50% wedi'i gwblhau – |
| Monitro – meddalwedd a mesuryddion ychwanegol | 52 | **2023**: 100% wedi'i gwblhau ✓ |
| Goleuadau LED: parhau i'w hamnewid ac adolygu'r rheolaethau | 30 | **2024**: 80% wedi'i gwblhau – |

**= ARBED 241 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN**

## TARGED TYMOR CANOLIG: (2023-2026)

| | | |
|---|---|---|
| Ailwampio unedau trin aer | 42 | |
| Cysylltu â rhwydwaith gwresogi ardal | 132 | **2024**: 50% wedi'i gwblhau – |
| Symud Tŷ Hywel yn ôl i awyru goddefol | 97 | |
| Gosod PV solar (Senedd a Thŷ Hywel) | 60 | |


**= ARBED 331 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN**

# Lleihau Carbon

Isod mae crynodeb o'r cerrig milltir yn ein Strategaeth Niwtral o ran Carbon Neutral Strategy 2021-2030.

Mae'r cynnydd yn ôl ein targedau tymor byr wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2024.

Mae'r Strategaeth lawn ar gael ar ein gwefan www.senedd.cymru




**TARGED TYMOR HIR: (BY 2030)**

| | |
|---|---|
| Pympiau gwres o'r awyr ar gyfer cyflenwad dŵr poeth | **10** |
| Addasu'r system teithio a chynhaliaeth i dalu am deithio mewn cerbydau trydan yn unig gan Aelodau o'r Senedd [1] | **82** |

**= ARBED 10 I 92 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN**

[1] ar sail lefel gyfredol yr hawliadau ceir preifat a mabwysiadu cardiau RFID, ffigur carbon ar gyfer milltiroedd mewn car maint canolig.



# Ynni

Y llynedd, fe wnaethom nodi gostyngiad yn y defnydd o nwy, gan leihau'r ddibyniaeth ar fewnforion tramor a'n paratoi ar gyfer effaith prisiau uwch. Mae'r prisiau hynny bellach wedi eu gwireddu, wedi eu gohirio o'r newidiadau yn y farchnad ehangach oherwydd y contractau hirdymor y prynwyd ein hegni oddi tanynt.

Fodd bynnag, mae hyn wedi golygu bod costau ynni wedi mwy na dyblu eleni, er gwaethaf ymdrechion i leihau defnydd ar draws ein cyfleustodau. Yn anffodus, nid yw hyn yn syndod, o ystyried bod cost uned trydan wedi mwy na dyblu, ac wedi treblu, hyd yn oed, yn achos nwy.

Fel y gofynnodd y Comisiwn, rydym wedi parhau i weithredu mesurau arbed ynni ac addasiadau i'r galw am wresogi yn yr adeiladau, a darpariaeth aerdymheru yn yr haf. Er bod yr haf yn fwynach a’r galw am aerdymheru yn llai yn sgil hynny, roedd 5% o ostyngiad yn y galw am drydan. Yn yr un modd, gostyngodd ein mesurau arbed gwres y defnydd o nwy 7%. O fewn cyd-destun gostyngiad yng nghyllidebau'r sector cyhoeddus, mae ein mesurau arbed wedi ein cynorthwyo i wireddu arbedion o £50,000.

Mae'r mesurau rydym wedi eu cymryd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cynnwys gostwng pwyntiau gosod, ond hefyd diffodd gwresogi i fannau â deiliadaeth is yn yr adeilad; gan annog staff i weithio mewn mannau gweithio hyblyg wedi eu cynhesu. Mae hyn wedi helpu defnydd, allyriadau a biliau is, ac wedi sicrhau bod yr adeiladau'n ymateb yn well i newidiadau mewn deiliadaeth. Fe wnaethom gydnabod ar y pryd bod y newidiadau wedi cael effaith ar ein staff pan fyddant yn yr adeilad. Fe wnaethom weithio'n gyflym i gyhoeddi cyfathrebiadau a lliniaru materion, a byddwn yn parhau i wneud hynny.


# Dŵr, Gwastraff ac Adnoddau Eraill

Mae ffigurau cynhyrchu gwastraff bron yn union yr un fath â'r llynedd.  Mae rhai costau wedi gostwng ychydig mewn gwirionedd, gan ostwng ein gwariant cyffredinol.  Rydym yn parhau i ddargyfeirio'r holl wastraff i ffwrdd o safleoedd tirlenwi; naill ai drwy ei ailgylchu'n uniongyrchol neu ei anfon i'r gwaith ynni o wastraff gerllaw.


Un cam gweithredu i ni yn y flwyddyn a ddaw fydd cydymffurfio â deddfwriaeth newydd ailgylchu yn y gweithle.  Ers blynyddoedd lawer, rydym wedi bod yn ailgylchu'r holl ffrydiau gwastraff sydd eu hangen dan y gyfraith newydd, sy'n golygu y bydd rhai newidiadau bach i'r ffordd mae'r gwastraff hwnnw'n cael ei wahanu ar y safle yn ddigonol.

Mae'r defnydd o ddŵr ychydig yn is eleni - arbediad cost bach o'i gymharu â'r llynedd a gostyngiad o tua 15% yn y defnydd.  Mae hyn yn dilyn cynnydd y llynedd wrth i fwy o bobl ddod ar yr ystâd.  Unwaith eto, mae'r defnydd o ddŵr yn mynd law yn llaw â deiliadaeth adeiladau ac mae'n tueddu i amrywio yn unol â hynny - o ganlyniad i ddeiliadaeth staff a phresenoldeb ymwelwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ein hadeiladau.  Mae gosodiadau a ffitiadau y mae angen eu disodli bellach yn cael eu gwneud gyda blaenoriaeth i ddewisiadau lleihau dŵr.

Rydym yn parhau i gaffael nwyddau fel deunydd ysgrifennu a'n cyfleustodau drwy fframweithiau Llywodraeth Cymru a gydgysylltir yn ganolog.  Mae staff cynaliadwyedd yn rhan o ddatblygu manylebau ac adolygiadau tendro ar gyfer pob contract mawr; gan sicrhau bod safonau fel rhai Masnach Deg a'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd yn cael eu pennu lle bo'n berthnasol.  Rydym hefyd wedi bod yn parhau i ofyn i gyflenwyr newydd gyfrifo ôl troed carbon nwyddau lle bo modd, er mwyn ein helpu i gyfrifo ein hôl troed ein hunain yn fwy cywir.




Mae metrigau gwastraff wedi sefydlogi ac rydym yn parhau i ddargyfeirio'r holl ddeunyddiau o safleoedd tirlenwi




Mae ein defnydd o ddŵr wedi amrywio dros amser mewn ymateb i newidynnau fel digwyddiadau, deiliadaeth adeiladau, a gwaith cynnal a chadw, ond mae'n dangos tuedd hirdymor am i lawr

# Teithio


## Gostyngodd nifer y teithiau yn sylweddol yn ystod y pandemig. Mae'r ffigyrau eleni yn debyg i ffigyrau'r llynedd, ond maent yn parhau i fod tua dwy ran o dair o'r hyn oeddent cyn y pandemig.

Mae cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi rhithwir a hybrid yn gyffredin erbyn hyn. Mae gan ein hystâd gyfleusterau cyfarfodydd hybrid helaeth, ac ar adegau mae'r Aelodau'n parhau i ymuno â chyfarfodydd pwyllgor a'n sesiynau Cyfarfod Llawn o bell o'u hetholaethau pan fo'n fwy priodol gwneud hynny. Mae'r hyblygrwydd hwn i Aelodau yn helpu i leihau effeithiau teithio.

Mae'r cynllun aberthu cyflog ar gyfer cerbydau trydan a lansiwyd gennym ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf bellach yn gweithredu'n llawn. O ystyried bod amodau'r farchnad wedi codi prisiau ers i ni ddechrau gweithredu, nid yw'r cynllun wedi gweld y nifer a ragwelwyd o gyfranogwyr yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, rydym yn fodlon ei fod yn un dewis ymhlith llawer rydym yn ei gynnig ar gyfer teithio carbon is.

Un dewis ar gyfer teithio busnes yw car cronfa'r Senedd. Ychydig flynyddoedd yn ôl fe wnaethom newid hwn i gerbyd oedd yn rhedeg yn bennaf ar drydan ond gyda generadur petrol wrth gefn. Eleni, o ystyried gwelliannau i dechnoleg sy'n ein galluogi i deithio ar hyd Cymru unwaith heb orfod ailwefru, rydym wedi newid i gar cwbl drydanol.

Rydym yn parhau i fod yn aelod o grŵp y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer teithio llesol ac rydym wedi cael y marc siarter Cyflogwr Teithio Iach. Mae hyn yn adlewyrchu ein cyfleusterau helaeth i'r rhai sy'n cerdded a beicio i'r gwaith, yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer gyrwyr cerbydau trydan a hyd yn oed defnyddwyr e-feiciau. Mae bod yn rhan o'r grŵp Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hwn hefyd yn helpu i gynnal momentwm am ymlaen wrth i ni rannu arfer gorau yn y maes hwn â sefydliadau sector cyhoeddus eraill.




*Wrth i nifer diwrnodau'r wythnos y mae staff yn cymudo i'r swyddfa ostwng, gwelsom newid yn yr ystadegau pellter a dull, yn fwyaf amlwg ymhlith gyrwyr ceir.*

# Bioamrywiaeth

## Gyda'n hystâd fach, drefol, rydym wedi ein cyfyngu o ran yr effaith y gallwn ei chael ar fioamrywiaeth ehangach yr ardal, ond nid yw hyn wedi ein hatal rhag gwneud gwelliannau lle bo hynny'n bosibl.

Rydym yn parhau i gynnal llain gardd fwy a newydd ym maes parcio Tŷ Hywel, gan gynnwys dau bwll bach a choed sy'n blodeuo.  Rydym yn cynnal y tir wrth ochr adeilad y Senedd; mae lleihau nifer y toriadau yn y glaswelltir hwn i ymyriadau blynyddol wedi caniatáu iddo gynhyrchu amrywiaeth eang o fflora, gan gynnwys dau fath o degeirianau.  O ganlyniad mae'r stribed blodau gwyllt hefyd yn denu amrywiaeth o bryfed erbyn hyn, gan gynnwys mursennod a gloÿnnod byw.

***Rhai o'r pryfed sy'n ymweld â'r stribed blodau gwyllt erbyn hyn***









Mae ein hardal Gwestai Trychfilod cymharol newydd yn parhau i fod yn llwyddiant - roedd tua 75% o feddiannaeth yn y gwestai sy'n wynebu'r de yr haf diwethaf gyda chymysgedd o wenyn unigol a phryfed cop yno.  Mae gweddillion coeden Nadolig y Senedd yn parhau i gael eu hychwanegu o flaen y gwestai mwy ffurfiol bob mis Ionawr, gan ganiatáu ar gyfer rhagor o amrywiaeth ac ail ddefnydd ar gyfer y goeden.

Mae prosiect Gwenyn y Pierhead yn parhau i redeg yn dda ac mae wedi bod yn gatalydd ar gyfer rhai o'r mesurau bioamrywiaeth ar ystâd ehangach Bae Caerdydd.  Rydym wedi mynd ati i blannu planhigion sy'n denu pryfed peillio yn ein gardd, ac mae'r prosiect wedi helpu i ysbrydoli rhai o'r grwpiau ysgol sydd wedi ymweld â'r wenynfa ac wedi mynd â'r brwdfrydedd hwnnw yn ôl i'w gerddi eu hunain.

Fel Comisiwn, ychydig iawn o effaith sydd gennym ar fioamrywiaeth y tu hwnt i'n hystâd, ond lle gallwn wneud dewisiadau cadarnhaol – er enghraifft, prynu pren wedi ei ardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd – rhoddir blaenoriaeth i hyn bob amser fel rhan o'n hadnodd asesu effaith ar gynaliadwyedd.



# Effeithiau Eraill

Er bod cylch dylanwad ein Haelodau yn cynnwys pob rhan o fywydau pobl yng Nghymru, mae gweithrediadau Comisiwn y Senedd yn gymharol gyfyngedig, yn bennaf i'n hadeiladau ym Mae Caerdydd a swyddfa fach yng ngogledd Cymru.

Nid yw’r safleoedd hyn yn cael eu hystyried mewn perygl uniongyrchol oherwydd effeithiau newid hinsawdd, gyda’r Bae, er enghraifft, yn cael ei warchod i ryw raddau gan Forglawdd Bae Caerdydd.  Fodd bynnag, mae ein Strategaeth Carbon Niwtral yn cynnwys mesurau fel paneli solar sy’n darparu amddiffyniad pellach rhag dyfodol ansicr.

Ar nodyn cynaliadwyedd ehangach, cyflawnodd Caffi'r Senedd y Safon Caffi Teulu eleni, a ddyfarnwyd gan Kids in Museums.  Mae'r wobr hon yn cydnabod nodweddion y lleoliad sy'n addas i deuluoedd ac sy'n ystyriol o'r amgylchedd. Cynhaliwyd y broses i gyflawni'r wobr mewn partneriaeth â'n contractwr arlwyo, a oedd ei hunan yn awyddus i leihau ein heffaith ar gynaliadwyedd.  Lle bo'n bosibl, caiff yr holl fwyd, ar gyfer y caffi a'r gwasanaeth arlwyo ehangach, eu caffael o Gymru.  Er nad ydym yn effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau gwledig o'n hystâd, dyma un maes lle gallwn gael effaith gadarnhaol fechan ar y sector hwn. Yn hyn o beth, llwyddodd y gwasanaeth arlwyo i ennill gwobr efydd Bwyd am Oes Cymdeithas y Pridd eleni; gan ddangos ei ymrwymiad i ddarparu bwydydd ffres ac iach a chynaliadwy o ffynonellau lleol.

# Rhanddeiliaid Eraill

Nid yw ein gwaith cynaliadwyedd bob amser wedi ei gyfyngu i’r ystâd, Aelodau, eu staff cymorth a staff y Comisiwn, ond mae’n dod â ni i gysylltiad â rhanddeiliaid eraill sy’n ystyried yr amgylchedd.

Rydym wedi gweithio gyda Senedd Ieuenctid Cymru ac yn parhau i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu â llawer o grwpiau ysgol a phobl ifanc eraill. Mae hyn yn cynnwys gwaith ynghylch rôl y Senedd, ond hefyd gweithgareddau fel ymweliadau â Gwenyn y Pierhead i ddysgu am beillwyr a bioamrywiaeth.

Rydym yn gweithio’n agos gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i rannu arfer gorau, yn enwedig seneddau eraill y Deyrnas Unedig. Mae'r fforymau hyn yn helpu gyda chysondeb wrth ymateb i bolisi ac aros o flaen y gromlin. O ystyried gorgyffwrdd o ran cyflenwyr, bydd hefyd yn helpu i sicrhau ein bod ni’n cymryd ymagwedd gyson â'r gadwyn gyflenwi wrth fynd i'r afael â'n hallyriadau cwmpas 3 yn y dyfodol.

# Rheoli Amgylcheddol

## Mae Comisiwn y Senedd wedi cynnal system rheolaeth amgylcheddol ffurfiol ers dros ddegawd.

Rydym yn credu mewn tryloywder yn ogystal â gosod y safonau uchaf i ni ein hunain, a dyna pam rydym yn cynnal system rheoli amgylcheddol sy'n cael ei harchwilio'n allanol yn unol â gofynion ISO14001. Mae’r safon reoli hon yn mynnu bod amrywiaeth o gamau yn cael eu dangos mewn archwiliad allanol, gan gynnwys rheolaethau ar effeithiau amgylcheddol allweddol, cydymffurfio â deddfwriaeth, a rhaglen o archwiliadau mewnol. Mae gennym dîm o archwilwyr mewnol hyfforddedig sy'n gwirio'r safle ffisegol a'n rheolaethau gweithredol i sicrhau ein bod ni’n cydymffurfio’n gyson drwy gydol y flwyddyn. Mae'r archwilwyr hefyd yn gwirio risg llygredd ac yn chwilio am arbedion effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl.

Rydym yn parhau i weithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn ogystal â seneddau eraill y Deyrnas Unedig, er mwyn rhannu arfer gorau wrth wella'r amgylchedd yn barhaus.

# Atodiad A - Tablau Data

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr net cwmpasau 1, 2 a 3 (teithio busnes, dŵr, gwastraff), $tCO_2e$ | 1,654 | 1,296 | 1,150 | 764 | 870 | 844 | **835*** |
| Cyfanswm yr allyriadau ynni, $tCO_2e$ | 1,364 | 1,066 | 962 | 730 | 799 | 701 | **686** |
| NEWYDD - Cyfanswm allyriadau Cwmpas 3 (teithio, gweithio gartref, nwyddau a gwasanaethau, cymudo) | | | | | | 2,841 | **2,813*** |
| Cyfanswm y gwastraff (tunelli) | 142 | 128 | 100 | 41 | 50 | 63 | **63** |
| Cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd, $m^3$ | 4,158 | 6,064 | 6,281 | 2,802 | 3,191 | 4,408 | **3,684** |
| Cyfanswm yr allyriadau teithio ar fusnes, $tCO_2e$ | 207 | 174 | 180 | 24 | 67 | 140 | **148*** |
| Y defnydd o bapur (miliwn o ddalennau) | 2.92 | 2.73 | 2.33 | 0.86 | 0.65 | 1.97 | 2.05 |

** Eithriwyd teithio Aelodau o'r Senedd a'r Staff Cymorth mis Mawrth 2024 oherwydd oedi wrth adrodd.  Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.*

Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales